



YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA-BRO DUR

Polisi E-ddiogelwch

Athro Dynodedig Diogelu Plant Ystalyfera :
Athro Dynodedig Diogelu Plant Bro Dur:
Dirprwy ADDP Ystalyfera:
Dirprwy ADDP Bro Dur:
Llywodraethwr Dynodedig Diogelu Plant:

Mrs Rhiannon Hammond
Miss Kath Jones
Mrs Delyth Spurway/Mrs Angharad Lloyd
Miss Sioned Jones
Mrs Carys Jones

Cymeradwywyd gan y Llywodraethwyr 2018

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2018

Adolygwyd gan y Llywodraethwyr:

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2019

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2020

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2021

Llofnod (Cadeirydd y Llywodraethwyr):

Ionawr 2022

Polisi e-Ddiogelwch Staff a Disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur

Defnyddir y Polisi e-Ddiogelwch ar y cyd â pholisiau ysgol eraill – Polisi Gwrth-Fwlio, Polisi Ymddygiad, Polisi Defnydd Ffônau Symudol, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Polisi Secstio a'r Polisi Diogelu Plant.

Rhesymeg

Mae mwy o blant a phobl ifanc nag erioed yn defnyddio technoleg newydd i gyfathrebu, cymdeithasu, chwarae a dysgu. Mae technoleg fel y Rhynggrwyd, e-bost, ffonau symudol a chonsoleau gêm erbyn hyn yn rhan o'n cymdeithas ac yn rhan o fywyd bob dydd nifer ohonom.

Mae amryw o fanteision i dechnolegau o'r fath, ac maent wedi newid a llywio'r ffordd rydym yn gweithio, yn byw ac yn cyfathrebu ag eraill. Ond wrth i oedran y plant sy'n dechrau defnyddio'r rhain ostwng yn gynyddol, cydnabyddir yr angen i addysgu a chodi ymwybyddiaeth ymysg disgyblion a staff o beryglon yn ogystal â manteision y technolegau newydd hyn.

I staff a disgyblion, mae goblygiadau ymddygiad anniogel ar-lein neu drwy ddefnyddio technolegau newydd yn sylweddol.

Beth yw e-Ddiogelwch?

Yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur, rydym yn cynnig ystod eang o gyfleusterau cyfrifiadurol gan gynnwys mynediad i'r rhynggrwyd i staff a disgyblion. Mae'r canllawiau e-Ddiogelwch yn gam tuag at amddiffyn pawb.

Fel unigolyn, **chi sydd yn gyfrifol** am eich defnydd o systemau cyfrifiadurol yr ysgol.

Y PERYGLON:-

Ceir nifer o beryglon allweddol yn gysylltiedig â defnyddio technolegau newydd, gan gynnwys:

- Perygl corfforol
- Camdriniaeth rywiol neu feithrin perthnasau amhriodol
- Gweld safweoedd ysgogi
- Bwlio

- Ymddygiad anghyfreithlon
- Dod i gysylltiad â chynnwys amhriodol
- Defnydd obsesiynol o TGCh
- Tor-hawlfraint
- Cyhoeddi cynnwys amhriodol
- Gamblo arlein
- Dwyn hunaniaeth
- Cyhoeddi gwybodaeth bersonol
- Llygredd neu gamddefnyddio data

Er mwyn eich amddiffyn rhag y peryglon yma, mae disgwyl i chi ddilyn y canllawiau e-Ddiogelwch.

Canllawiau e-Ddiogelwch Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur

1. Peidiwch â gadael unrhyw un arall ddefnyddio'ch cyfrif na'ch cyfrinair.
2. Ysgrifennwch negeseuon e.e. e-byst yn ofalus ac yn gwrtais.
3. Defnyddiwch wefannau sy'n briodol ar gyfer eich addysg/gwaith yn unig.
4. Peidiwch ag ymateb i unrhyw negeseuon cas/bygythiol boed trwy eich ffôn symudol, e-bost neu rwydwaith cymdeithasol. Cadwch y dystiolaeth a'i ddangos ef i oedolyn cyfrifol.
5. Peidiwch â rhoi gwybodaeth bersonol ar rwydweithiau cymdeithasol, drwy e-bost neu neges destun e.e. cyfeiriad, rhif ffôn. Defnyddiwch lisenw ar gyfer eich proffil. Cadwch eich proffil yn breifat.
6. Peidiwch â threfnu i gwrdd ag unrhyw un yr ydych wedi cwrdd â nhw ar lein. Mae'n bosib nad yw'r person yma fel yr oeddech yn disgwyl iddo/iddi fod, mae dweud celwydd ar lein yn hawdd. Os oes unrhyw un yn gofyn i gwrdd â chi, dwedwch wrth oedolyn cyfrifol.
7. Meddyliwch yn ofalus cyn postio unrhyw luniau ar y wê e.e. Facebook, Twitter, Snapchat a.y.b. Unwaith i chi bostio ar lein rydych yn colli rheolaeth o'r llun a ni fydd modd rheoli pwy sydd yn ei weld!

8. Os ydych yn gweld unrhyw beth ar lein neu drwy eich ffôn symudol sydd yn achosi pryder dangoswch ef i oedolyn cyfrifol.

Cofiwch:

- Gall yr ysgol fonitro'r defnydd o systemau cyfrifiadurol yr ysgol
- Gallwch golli'r fraint o fynediad i'r rhwydwaith a'r Rhyngrwyd os ydych yn dewis torri'r rheolau

RHWYDWEITHIAU CYMDEITHASOL

Nid oes gan yr ysgol unrhyw reolaeth dros rwydweithiau cymdeithasol megis Facebook, Twitter a.y.b. Os oes problem yn codi trwy ddefnyddio'r rhain bydd angen trafod gydag oedolyn rydych yn ymddiried ynddyn nhw a delio gyda'r broblem gan gysylltu yn uniongyrchol gyda Facebook/Twitter a.y.b. neu'r Heddlu.

Côd Ymddygiad – Rhwydweithiau Cymdeithasol

Egwyddorion Craidd i Staff a Disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur

- Mae cyfrifoldeb ar bawb yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur i gynnal enw da'r ysgol a sicrhau eu bod yn trin disgyblion a staff mewn ffordd broffesiynol, gwrtais a pharchus.
- Mae Diogelu Plant yn gyfrifoldeb allweddol i bob aelod o staff a rhaid ymddwyn yn gyfrifol wrth ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol. Ni ddylai unrhyw aelod o staff gyfathrebu yn uniongyrchol gyda disgybl drwy rwydweithiau cymdeithasol.
- Ni chaniateir defnydd o gyfleusterau cyfrifiadurol yr ysgol er mwyn cael mynediad at rwydweithiau cymdeithasol.
- Y nod yw amddiffyn staff a disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur.

Ni chaniateir:-

- Defnyddio enw, logo, arwyddair, gwisg na lun o adeilad yr ysgol heb ganiatâd y Pennaeth.
- Defnyddio lluniau na chyfathrebu sydd yn gysylltiedig ag ymddygiad anghyfreithlon neu sydd yn niweidio enw da'r ysgol gan gynnwys sylwadau difenwol
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol; neu ddatgelu gwybodaeth/lluniau a allai beryglu diogelwch yr ysgol
- Datgelu unrhyw luniau o blant, staff, llywodraethwyr neu unrhyw un yn gysylltiedig â'r ysgol wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol, heb ganiatâd
- Sylwadau bygythiol, difriol, anghwrtais neu amharchus tuag at yr ysgol na unrhyw un yn gysylltiedig â'r ysgol

Cosbau posibl:

- Bydd ymchwiliad llawn yn dilyn torri'r côd ymddygiad. Gall ymchwiliad arwain at gamau disgyblaeth gan gynnwys cyfnod o ddiarddeliad neu waharddiad parhaol
- Yn dibynnu ar natur y weithred, defnyddir y Polisi e-Ddiogelwch ar y cyd â pholisiau ysgol eraill – Polisi Gwrth-Fwlio, Polisi Ymddygiad, Polisi Defnydd Ffônau Symudol, Polisi Diogelu Plant a gweithdrefnau disgyblu staff

Y Gyfraith:-

Mae'r cyfreithiau canlynol yn berthnasol i addysgu a hyrwyddo e-Ddiogelwch.


*** Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990** (Gan gynnwys hacio, ymosodiadau gwrthod gwasanaeth, cael mynediad at ffeiliau neu feddalwedd heb ganiatâd).

- **Deddf Cyfathrebu 2003 (adran 127)** (Anfon neges neu ddeunydd arall sy'n hynod dramgwyddus neu o natur anwedus, anllad neu fygythiol, er enghraifft drwy'r rhyngwyd neu ffôn symudol)
- **Deddf Troseddau Rhyw 2003** (gan gynnwys paratoi dioddefwr)
- **Deddf Diogelu Data 1998** (Mewn perthynas â thrin gwybodaeth bersonol)
- **Deddf Cyfathrebu Maleisus 1998** (gan gynnwys aflonyddu, bwlio a seiberstelcio)
- **Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 a 1964** (Gan gynnwys deunydd anghyfreithlon ar y we neu a drosglwyddir drwy'r we, a chyfathrebiadau electronig)
- **Deddf Telathrebu 1984** (Gan gynnwys deunydd anghyfreithlon ar y we neu a drosglwyddir drwy'r we, a chyfathrebiadau electronig)

Cysylltiadau Defnyddiol:-

Gwefannau:

www.thinkuknow.co.uk
www.cybersmart.org
www.bbc.co.uk/webwise
www.stopcyberbullying.org
www.anti-bullyingalliance.org.uk
www.kidsmart.org.uk
www.wisekids.org.uk
www.cybermentors.org.uk
www.ceop.gov.uk

| | Enw | Llofnod | Dyddiad |
|-----------------------------------|-------------------|--|----------------|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Mr Alun Llewelyn |  | Ionawr 2022 |
| Pennaeth | Mrs Laurel Davies | | Ionawr 2022 |

Dyddiad Adolygu

Ionawr 2023